



GWELEDIGAETH AC AMCANION STRATEGOL

www.dwi.gov.uk



CYNNWYS

Rhagair **4**

Cyflwyniad **6**

Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed – trosolwg **7**

- Prif ddyletswyddau statudol yr Arolygiaeth **8**
- Prif swyddogaethau anstatudol yr Arolygiaeth **9**
- Sut y caiff yr Arolygiaeth ei rheoli **10**
- Sut y caiff yr Arolygiaeth ei hariannu **10**

Gweledigaeth ac amcanion strategol **12**

Manylion ein strategaeth **14**





RHAGAIR

Mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed yn parhau i ddatblygu mewn ymateb i bolisïau a deddfwriaeth newydd, gan ddefnyddio egwyddorion arloesol ac arferion rheoleiddio ar gyfer y diwydiant a reoleiddir ganddi. Mae'r strategaeth hon yn nodi ein gweledigaeth sy'n cynnwys pwyslais ar fod yn rheoleiddiwr ansawdd dŵr yfed cyfrifol, atebol, agored a thryloyw, sy'n rhoi ffocws i'r diwydiant dŵr er budd y cyhoedd yng Nghymru a Lloegr.

Ein nod yw gwella ansawdd a digonolrwydd cyflenwadau dŵr yfed yng Nghymru a Lloegr, gan weithio o fewn ein cylch gorchwyl rheoleiddio i sicrhau bod iechyd y cyhoedd yn cael ei ddiogelu a bod hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd mewn dŵr yfed yn cael eu cynnal. Rhaid i hyn barhau i fod yn ganolog i'n gwaith.



Mae'r strategaeth hon yn pwysu a mesur sut rydym yn mynd ati i reoleiddio ansawdd cyflenwadau dŵr yfed yn effeithiol ac yn gymesur, gan ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr dŵr gynllunio'n strategol er mwyn rheoli cyflenwadau dŵr yfed fel eu prif ddyletswydd a chyfrifoldeb i'w defnyddwyr.

Nodwn yma strategaeth uchelgeisiol, seiliedig ar dystiolaeth sy'n mynd i'r afael â heriau hirdymor, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a galw cynyddol, heb gyfaddawdu ar ansawdd na digonolrwydd dŵr. Mae'r strategaeth yn nodi'r angen i barhau i ddarparu cyflenwadau diogel a digonol o ddŵr yfed; cymryd camau rheoleiddio annibynnol pendant ac amserol er budd defnyddwyr; a chraffu ar weithrediadau cyflenwyr dŵr o'r ffynhonnell i'r tap, gan ddefnyddio data cwmnïau i nodi risgiau a chynnal ymchwiliadau.

Rydym yn ymdrechu i wneud mwy na sicrhau cydymffurfiaeth, gan ddefnyddio dulliau arloesol ac annibynnol sy'n seiliedig ar risg.

A stylized, handwritten signature in black ink, appearing to read 'Marcus Rink'.

Marcus Rink
Prif Arolygydd Dŵr Yfed





CYFLWYNIAD

Mae dŵr yfed diogel a glân yn hollbwysig i iechyd y cyhoedd a llesiant ein cymdeithas. Mae hyn yn bwysicach nag erioed yn wyneb heriau sylweddol i gyflenwadau dŵr yfed oherwydd effeithiau newid yn yr hinsawdd, ac i ansawdd ac argaeledd adnoddau dŵr. Mae'n hanfodol bod dŵr yfed o ansawdd da ar gael yn y dyfodol, a bod cwmnïau yn gwneud y buddsoddiad sydd ei angen i sicrhau bod hynny'n digwydd.

Mae presenoldeb rheoleiddiwr annibynnol yn hanfodol wrth roi sicrwydd i'r cyhoedd ynghylch diogelwch ein dŵr yfed pan fyddwn yn troi'r tap ymlaen. Mae ein fframwaith rheoleiddio wedi arwain at gyflenwi dŵr yfed sydd ymhlith y dŵr gorau yn Ewrop o ran ansawdd, ac mae llywodraethau ledled y byd wedi mabwysiadu egwyddorion sylfaenol y dull gweithredu llwyddiannus hwn.





YR
AROLYGIAETH
DŴR YFED
TROSOLWG



YR AROLYGIAETH – TROSOLWGW

Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed (yr Arolygiaeth) yw rheoleiddiwr annibynnol ansawdd dŵr yfed ar gyfer cyflenwadau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr, ac mae'n gweithredu fel uned fusnes o fewn Cyfarwyddiaeth Llifogydd a Dŵr Defra. Mae gan y Gyfarwyddiaeth gyfrifoldeb ffurfiol am noddi'r Arolygiaeth yn Defra.

Mae'r Arolygiaeth yn wahanol i unedau busnes eraill yn Defra am fod rhai dyletswyddau yn cael eu neilltuo'n uniongyrchol i'w Prif Arolygydd gan statud. Caiff pwerau eraill eu dirprwyo i'r Prif Arolygydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru; mae'r Prif Arolygydd yn adrodd ar y materion hyn yn uniongyrchol i'r gweinidogion ac yn atebol i'r Cyfarwyddwr am Faterion Adnoddau Dynol a Rheoli Ariannol. Mae staff yr Arolygiaeth i gyd yn weision sifil.

Mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed yn adennill ei chostau o'r diwydiant a reoleiddir ganddi ond mae'n parhau'n atebol i'r Senedd am y gwariant hwnnw. Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, yr Ysgrifennydd Parhaol yw prif gynghorydd yr Ysgrifennydd Gwladol ar ddyrannu adnoddau a rheolaeth ariannol briodol. Caiff y cyfrifoldebau hyn eu dirprwyo drwy'r Cyfarwyddwr Cyffredinol (Grŵp yr

Amgylchedd a Materion Gwledig) i'r Cyfarwyddwr (Llifogydd a Dŵr) ac ymlaen i'r Prif Arolygydd, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwariant yr Arolygiaeth.

Mae'r Arolygiaeth yn cynhyrchu ei hadroddiadau annibynnol ei hun ar gyfer gweinidogion yng Nghymru a Lloegr; mae'n adrodd ar berfformiad gweithredol y cwmnïau dŵr a reoleiddir ganddi yn y ddwy wlad, ac ar berfformiad awdurdodau lleol o ran eu dyletswyddau mewn perthynas â chyflenwadau dŵr preifat.

Ar y cyfan, mae gweithrediadau'r Arolygiaeth o ddydd i ddydd yn annibynnol ar y Gyfarwyddiaeth. Er enghraifft, mae'n rheoli ei rhaglen dystiolaeth ei hun; mae ei harolygwyr yn delio'n uniongyrchol â defnyddwyr a'r cyfryngau sy'n ceisio gwybodaeth am ddiogelwch dŵr yfed a'r broses o'i reoleiddio; ac mae ganddi ei gwefan ei hun.

Caiff perfformiad gweithredol yr Arolygiaeth ei fonitro'n rheolaidd drwy gyswllt ffurfiol ac anffurfiol â swyddogion Llywodraeth Cymru a Defra a chaiff ei gyhoeddi yn ein hadroddiad perfformiad busnes.





YR AROLYGIAETH – EIN PRIF DDYLETSWYDDAU STATUDOL

Sefydlwyd yr Arolygiaeth gan y Senedd yn 1990 er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol bod y diwydiant dŵr a oedd wedi'i breifateiddio yng Nghymru a Lloegr yn darparu dŵr yfed diogel a glân i ddefnyddwyr.

Mae'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer cyflenwadau dŵr yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys y pwerau a'r dyletswyddau y mae'n gweithredu oddi tanynt, a dyletswyddau cyflenwyr dŵr, wedi'i sefydlu mewn deddfwriaeth.

Caiff y Prif Arolygydd Dŵr Yfed ei benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, a Gweinidogion Cymru, ac mae'n gweithredu ar eu rhan. Caiff rhai pwerau penodol eu rhoi'n uniongyrchol i'r Prif Arolygydd, gan sicrhau bod gwaith yr Arolygiaeth yn annibynnol. Yn ogystal â rôl reoleiddio'r Arolygiaeth, y Prif Arolygydd a'i arolygwyr yw'r cynghorwyr technegol penodedig i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â dŵr yfed.


Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n nodi swyddogaethau a dyletswyddau'r Arolygiaeth wedi'i chynnwys yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1999 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003, Deddf Dŵr 2014 a Gorchymyn Deddf Dŵr 2014 (Diwygiadau Canlyniadol etc.) 2017). Mae materion sy'n ymwneud â chyflenwadau dŵr wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru hefyd drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Mae Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) (Cymru) 2018; Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2016 (Lloegr) fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) (Diwygio) 2018 a Rheoliadau'r Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol etc.) 2019 – O.S. Rhif 526; Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017; a Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Lloegr) 2016 (fel y'u diwygiwyd), a wnaed o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr – y cyfeirir atynt ar y cyd fel y Rheoliadau – yn nodi'r gofynion ar gyfer rheoleiddio ansawdd cyflenwadau dŵr yfed cyhoeddus a phreifat.

Yn ogystal, mae Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018 yn nodi gofynion i ddiogelu gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys cyflenwadau dŵr. Mae deddfwriaeth a rheoleiddwyr cyfatebol yn weithredol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r darpariaethau yn Adran 68 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr (sy'n ymwneud â gorfodi) wedi'u dirprwyo'n ffurfiol i'r Prif Arolygydd gan weinidogion.

Y Prif Arolygydd sy'n uniongyrchol gyfrifol am y darpariaethau yn Adran 70 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr (sy'n ymwneud ag achosion yn erbyn ymgymrwyr ac eraill sy'n cyflenwi dŵr sy'n anaddas i'w ddefnyddio gan bobl). Rhennir y cyfrifoldeb am gefnogi gweinidogion mewn perthynas â rhai o ofynion eraill Deddf y Diwydiant Dŵr rhwng yr Arolygiaeth a swyddogion polisi Llywodraeth Cymru a Defra.





YR AROLYGIAETH – EIN PRIF SWYDDOGAETHAU ANSTATUDOL

Mae gwaith yr Arolygiaeth yn eang ac yn cwmpasu pob agwedd ar ansawdd a digonolrwydd cyflenwadau dŵr cyhoeddus. Mae arbenigedd technegol ei staff yn cwmpasu pob agwedd ar wyddoniaeth, peirianeg a rheoli cyflenwadau dŵr yfed. Yn gyson â'i dyletswyddau statudol, mae'r Arolygiaeth hefyd yn gyfrifol am lawer o swyddogaethau eraill, gan gynnwys:

- rhoi cyngor ac arweiniad i gyflenwyr dŵr ar bob agwedd ar y cyflenwad dŵr yfed
- delio ag ymholiadau sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr yfed gan ddefnyddwyr, sefydliadau a busnesau
- rhoi cyngor i weinidogion a swyddogion ar faterion sy'n ymwneud â'r cyflenwad dŵr yfed, Cwestiynau Seneddol ac ymholiadau eraill a ddaw i law
- cydweithio â rheoleiddwyr eraill yn y diwydiant dŵr
- rhoi cyngor i weinidogion ar gyflenwadau dŵr preifat (hynny yw, y rhai na chânt eu cyflenwi gan gwmni dŵr) a materion cysylltiedig
- rhoi cyngor a chymorth i awdurdodau lleol ar bob agwedd ar ansawdd dŵr yfed, gan gynnwys cyflenwadau dŵr preifat
- rheoli rhaglen ymchwil Ansawdd ac Iechyd Dŵr Defra
- rhoi gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol er mwyn cyhoeddi adroddiad ar ansawdd dŵr yfed i ddefnyddwyr

Swyddogion polisi sy'n gyfrifol am gynghori eu gweinidogion ar faterion polisi sy'n ymwneud â'r cyflenwad o ddŵr yfed.





SUT Y CAIFF YR AROLYGIAETH EI RHEOLI

Mae gan yr Arolygiaeth un swyddfa yng nghanol Llundain, ond mae ei staff yn gweithio'n hyblyg ledled Cymru a Lloegr.

Mae ei harolygwyr yn weithwyr proffesiynol profiadol sydd â chefnidiroedd cryf mewn meysydd technegol, gwyddonol neu beirianyddol. Mae staff technegol a chymorth yr Arolygiaeth yn cynnwys arbenigwyr ym meysydd rheoli data, rheoli gwybodaeth a gweinyddu busnes. Mae'r gwaith yn gofyn am gryn dipyn o arbenigedd ym mhob agwedd ar gyflenwi dŵr yfed; dehongli'r gyfraith, gorfodi gofynion cyfreithiol mewn modd teg a chymesur, a rhoi cyngor ac arweiniad cadarn i randdeiliaid diwydiant a'r llywodraeth ar bob lefel.

Uwch-dîm rheoli'r Arolygiaeth sy'n bennaf cyfrifol am reoli'r Arolygiaeth ac am ei chyfeiriad strategol. Y prif arolygwyr sy'n aelodau o dîm rheoli'r Arolygiaeth sy'n gyfrifol am gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd.

At ddibenion adnoddau dynol, recriwtio a thâl, mae staff yr Arolygiaeth yn rhwym wrth bolisïau Defra ac yn dilyn canllawiau'r Gwasanaeth Sifil.

Mae'r Arolygiaeth yn gweithredu menter rheoleiddio gwell. Mae'r fenter hon yn caniatáu i staff cyflogedig o gwmnïau dŵr ymuno â'r Arolygiaeth er mwyn ymgymryd â gweithgarwch hyfforddi a datblygu am gyfnod o chwe mis. Bydd y secondeion yn gweithredu fel aseswyr dros dro ac fe'u hawdurdodir i gyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Arolygiaeth o ddydd i ddydd; ni chânt eu talu gan Defra ac ni fyddant yn llenwi swyddi arolygwyr.



SUT Y CAIFF YR AROLYGIAETH EI HARIANNU

Caiff y mwyafrif o gostau gweithredu'r Arolygiaeth eu hariannu gan gwmnïau dŵr drwy gostau a adenillir am wasanaethau rheoleiddio. Caiff costau eu hadennill hefyd gan sefydliadau masnachol ar gyfer y gwaith o gymeradwyo eu cynhyrchion i'w defnyddio i drin a dosbarthu dŵr yfed.

Mae'r Arolygiaeth yn cael swm bach o arian gan Defra, sy'n ymwneud â'r gwaith o gefnogi cyngor ar bolisiâu; y swyddogaethau y mae'r Arolygiaeth yn eu cyflawni yn rhyngwladol; ac am y gwaith a wna mewn perthynas â chyflenwadau dŵr preifat. Caiff yr arian hwn ei ystyried yn wariant ar raglenni ac mae'n rhan o'r cyfanswm a ddyrennir i raglenni gan Gyfarwyddiaeth Llifogydd a Dŵr Defra. Caiff gofynion yr Arolygiaeth eu hystyried yn yr un ffordd â gofynion unrhyw raglen arall y mae'r Gyfarwyddiaeth yn gyfrifol amdani yn ei hymarferion cynllunio busnes a dyrannu adnoddau blyneddol. Fodd bynnag, strategaeth yr Arolygiaeth yw adenill y costau'n llawn a bydd yn gweithio tuag at adenill yr elfen hon o'r gyllideb heb gymorth Defra.

Daeth Gorchmynion Ffioedd newydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-2017 i rym ar 8 Medi 2016 (ar gyfer Cymru) a 1 Ebrill 2016 (ar gyfer Lloegr). Yn 2017-2018, aeth yr Arolygiaeth ati i adolygu'r amser a dreuliwyd yn asesu trefniadau rheoli cyflenwadau dŵr a gwnaethpwyd rhai addasiadau i'r gwerthoedd a ddefnyddiwyd wrth adenill costau. Bydd yr Arolygiaeth yn parhau i adolygu ei ffioedd er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i adenill yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'i gweithgareddau rheoleiddio. Yn benodol, bydd angen ystyried newidiadau i gyflogau staff a'r system samplu, yn sgil rheoliadau 2018 i ddiwygio Atodiad II o'r Gyfarwyddeb Dŵr Yfed. Fodd bynnag, byddai unrhyw weithgarwch rheoleiddio ychwanegol neu newydd yn debygol o gael ei gynnwys yn y swyddogaethau a nodir eisoes yn y gorchymyn. Yr amcan yn 2020 fydd codi tâl am yr holl weithgareddau a ganiateir yn y gorchymyn, fel bod modd adenill y gyllideb lawn er mwyn ariannu'r strategaeth hon.





GWELEDIGAETH AC AMCANION STRATEGOL





GWELEDIGAETH AC AMCANION STRATEGOL

GWELEDIGAETH:

Diogelu iechyd y cyhoedd a chynnal hyder y
cyhoedd drwy sicrhau dŵr yfed digonol, diogel
a glân, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.





GWELEDIGAETH AC AMCANION STRATEGOL

Amcan strategol 1: Gwellu a diogelu ansawdd a digonolrwydd cyflenwadau dŵr yfed yng Nghymru a Lloegr.

Byddwn yn parhau i gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio craidd, fel yr ydym wedi bod yn ei wneud ers 30 mlynedd, er mwyn sicrhau bod dŵr yfed yn ddiogel ac yn lân. Er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar brofion diweddbwynt, byddwn yn parhau i hyrwyddo dull o reoli risg, y profwyd ei fod yn arwain at lai o risg i ddefnyddwyr. Mae gweithgarwch cynllunio diogelwch dŵr, a hyrwyddir gan Sefydliad Iechyd y Byd, wedi bod ar waith yng Nghymru a Lloegr ers dros ddegawd.

Er mwyn rheoleiddio mewn ffordd effeithiol a hyddysg, mae ein gwaith yn seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth gadarn. Credwn y dylai cyfnodau o newid a heriau newydd, sy'n effeithio ar ymagweddau cymdeithasol, yr hinsawdd a'r amgylchedd, fod yn flaenoriaethau allweddol o ran ein dull o weithredu. Mae'r dull hwn o weithredu yn cefnogi cyflenwadau dŵr yfed cynaliadwy a chydnerth, drwy gynlluniau hirdymor, gan y rhai a reoleiddir gennym nawr ac yn y dyfodol.





GWELEDIGAETH AC AMCANION STRATEGOL

Amcan strategol 2: Diogelu iechyd y cyhoedd a chynnal hyder y cyhoedd mewn dŵr yfed.

Fel rheoleiddiwr ansawdd dŵr yfed, rydym yn cynnal asesiadau annibynnol o ansawdd dŵr yfed; rydym yn darparu gwybodaeth gywir a pherthnasol am ansawdd dŵr yfed; ac rydym yn cyhoeddi'r camau a gymerwyd i ddiogelu defnyddwyr. Rydym yn sefydliad tryloyw ac agored sy'n cyhoeddi ein gwybodaeth a'n perfformiad i'r llywodraeth, cyflenwyr, rhanddeiliaid eraill a defnyddwyr. Drwy wneud hyn, gall defnyddwyr gyrchu gwybodaeth am ansawdd eu dŵr, er mwyn iddynt allu gwneud dewisiadau hyddysg am y ffordd y maent yn ei ddefnyddio.





GWELEDIGAETH AC AMCANION STRATEGOL

Amcan strategol 3: Sicrhau bod ansawdd cyflenwadau dŵr yfed yn cael ei reoleiddio'n effeithiol ac yn gymesur.

Fel rheoleiddiwr annibynnol sy'n gweithio yn unol â deddfwriaeth gyfredol, mae ein gweithgareddau a'n penderfyniadau yn dilyn egwyddorion rheoleiddio gwell ac yn seiliedig ar risg. Mae ein staff yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen yn y diwydiant dŵr ac yn greiddiol i'r broses o gyflawni'r egwyddorion hyn. Byddwn yn datblygu ac yn defnyddio arferion da sy'n addas at y diben, gan roi cyngor amserol a thechnegol i bawb sydd ei angen.





GWELEDIGAETH AC AMCANION STRATEGOL

Amcan strategol 4: Hyrwyddo gweithgarwch cynllunio strategol ar gyfer ansawdd a digonolrwydd dŵr nawr, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae cyflenwi dŵr yfed diogel a digonol yn dibynnu ar waith cynllunio hirdymor. Byddwn yn craffu ar gynlluniau cyflenwyr yn effeithiol er mwyn sicrhau bod pob gweithrediad, o'r ffynhonnell i'r tap, yn ddiogel wrth gyflenwi ein dŵr yfed ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.





MANYLION EIN STRATEGAETH





1. DEDDFWRIAETH A RHEOLEIDDIO

Amcan: Sicrhau bod cyflenwyr dŵr yn cydymffurfio â deddfwriaeth ansawdd dŵr yfed.

Byddwn yn rheoleiddio mewn ffordd gymesur a phriodol, sy'n gyson â deddfwriaeth gyfredol, er mwyn sicrhau bod cyflenwadau dŵr yfed yn parhau i fod yn ddihalog ac yn ddigonol nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Wrth wneud hynny, byddwn yn diogelu iechyd y cyhoedd ac yn ceisio cynnal hyder y cyhoedd.

Ein dull gweithredu: Byddwn yn cynghori llunwyr polisi er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth yn addas at y diben, yn gyflawnadwy, ac yn berthnasol i'r diwydiant dŵr ac i gyflenwyr dŵr preifat.

Bydd staff cymwys a hyfforddwyd yn briodol yn defnyddio'r pwerau gorfodi a roddwyd i ni, fel y bo'n briodol, i reoleiddio cyflenwadau dŵr cyhoeddus er mwyn diogelu defnyddwyr. Byddwn yn goruchwyllo gweithgareddau cyflenwyr dŵr, ac yn cynnal ein swyddogaethau archwilio ac asesu mewn modd effeithlon a thryloyw, er budd defnyddwyr.






2. YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID

Amcan: Ymgysylltu â phob rhanddeiliad, gan gynnwys cyflenwyr dŵr, cadwyni cyflenwi, llywodraeth, rheoleiddwyr a defnyddwyr er mwyn sicrhau y caiff safonau dŵr yfed dihalog a digonol eu cynnal a'u gwella.

Ein dull gweithredu: O ran polisïau, byddwn yn ymgysylltu ar bob lefel er mwyn llunio amcanion strategol ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y dyfodol. Byddwn yn cydweithio â rheoleiddwyr eraill, ac yn defnyddio eu strategaethau er mwyn sicrhau bod ansawdd dŵr yfed yn cael ei ystyried bob amser wrth wneud unrhyw benderfyniad strategol.

Byddwn yn ymgysylltu â chyflenwyr dŵr ar bob lefel, gan gynnwys lefel bwrdd a gweithio, er mwyn sicrhau bod dŵr dihalog a digonol yn cael ei ddarparu mewn ffordd gydnerth. Byddwn yn hyrwyddo rôl allweddol y gadwyn gyflenwi wrth i gwmnïau dŵr ystyried sut y gallant gynnal cyflenwad o ddŵr dihalog.

Byddwn yn rhoi defnyddwyr wrth wraidd y penderfyniadau a wnawn.



3. SICRWYDD

Amcan: Gweithredu yn unol â'r safonau a ddisgwylir gan God Cydymffurfiaeth y Rheoleiddwyr er mwyn sicrhau ein bod yn rheoleiddio mewn ffordd agored, dryloyw a chymesur sy'n seiliedig ar risg. Byddwn yn deg ac yn annibynnol.

Ein dull gweithredu: Cyhoeddi: byddwn yn cyhoeddi ein polisi gorfodi, a'n dulliau apelio cysylltiedig, adroddiad ar ein camau gweithredu, a'n hadroddiad Perfformiad Busnes blynyddol, mewn ffordd syml. Caiff ein strategaethau a'n hadroddiadau eu rhannu ar ein gwefan.

Ymddygiad: byddwn yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio mewn ffordd deg a chytbwys ond byddwn yn cymryd camau gorfodi os bydd angen. Byddwn yn sicrhau y caiff cwmnïau eu rheoleiddio mewn ffordd deg, gan sicrhau bod yr holl fesurau perfformiad a ddefnyddir gennym yn dryloyw.

Byddwn bob amser yn rhoi esboniad amserol ynghylch ein penderfyniadau i'r sawl a reoleiddir gennym er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwell a gweithio tuag at sicrhau cydymffurfiaeth lawn. Byddwn yn cydnabod yr ymdrechion a wneir gan gwmnïau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio mewn ffordd deg a chytbwys.

Byddwn yn osgoi gosod baich rheoleiddio diangen ar y sawl a reoleiddir gennym a byddwn yn dwyn ein hunain i gyfrif drwy ein polisïau a'n gweithdrefnau ein hunain.

Byddwn yn ceisio adborth gan y sawl a reoleiddir gennym er mwyn meithrin cydberthnasau gwaith cynhyrchiol.



4. TREFNIADAETH

Amcan: Sicrhau bod strwythur y sefydliad wedi'i gynllunio mewn ffordd sy'n cyflawni ein hamcanion strategol, a bod ein staff yn gymwys, yn gyson, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Ein dull gweithredu: Byddwn yn cynnal gweithlu medrus iawn sy'n cynnwys grŵp amlddisgyblaethol o arbenigwyr proffesiynol.

Ein swyddogaeth yw rhoi sicrwydd o ansawdd uchel ynghylch effeithiolrwydd ac uniondeb cwmnïau sy'n darparu dŵr dihalog, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.

Prif egwyddor ein rôl pan gawsom ein ffurfio drwy Ddeddf Seneddol oedd diogelu defnyddwyr, ac mae hynny dal yn wir heddiw. Yn hyn o beth, byddwn yn ceisio datblygu ac ehangu pwy ydym a'r adnoddau sydd gennym, mewn strwythur sefydliadol sy'n adlewyrchu ein hegwyddorion craidd ac sy'n cefnogi'r broses o'u rhoi ar waith.



5. TECHNOLEG GWYBODAETH

Amcan: Defnyddio technoleg ddigidol i gasglu gwybodaeth ac adrodd arni mewn ffordd hygyrch a dibynadwy ar gyfer pob rhanddeiliad.

Ein dull gweithredu: Sicrhau bod ein gwefan yn addas at y diben, yn gywir ac yn berthnasol.

Datblygu TG sy'n ein galluogi i gasglu gwybodaeth gan randdeiliaid (sy'n rhwymedig i'w rhoi) yn hawdd, mewn ffordd gadarn a dibynadwy.

Datblygu rhyngwynebau sy'n ein galluogi i ledaenu deunydd perthnasol i randdeiliaid lle y bo'n bosibl, gan gynnwys cwmnïau dŵr, awdurdodau lleol a defnyddwyr.



6. CYFATHREBU


Amcan: Defnyddio dulliau effeithiol o gyfathrebu i gael gafael ar yr holl wybodaeth berthnasol er mwyn gwneud penderfyniadau cadarn er budd y cyhoedd, a lledaenu gwybodaeth berthnasol i randdeiliaid, gan gynnwys gweinidogion, defnyddwyr, cwmnïau dŵr a rheoleiddwyr.

Ein dull gweithredu: Ymgysylltu â grwpiau perthnasol, o ran ansawdd dŵr yfed, ar lefel ryngwladol, genedlaethol a lleol.

Byddwn yn defnyddio methodoleg brofedig i gael gwybodaeth am ansawdd dŵr yfed o ba ffynhonnell bynnag, gan gynnwys grwpiau ymchwil, gwleidyddol, rhyngwladol, y cyfryngau a grwpiau â buddiant.

Byddwn yn rhoi cyngor ac arweiniad amserol a thechnegol i gyflenwyr dŵr, llywodraethau, awdurdodau lleol, swyddogion iechyd a rheoleiddwyr eraill, ar lefel genedlaethol a rhyngwladol; byddwn yn ystyried cyfraniad posibl y cyfryngau cymdeithasol at gyflawni'r amcan hwn.

Sicrhau bod gan ddefnyddwyr digon o wybodaeth i fod yn hyderus ynghylch ansawdd eu dŵr yfed.



7. CYFLENWADAU DŴR CYHOEDDUS

Amcan: Sicrhau system reoleiddio briodol sy'n ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf a all effeithio ar ddŵr yfed. Sicrhau lefel uchel o gydymffurfiaeth â'r system honno ymhlith cyflenwyr dŵr, fel bod defnyddwyr yn hyderus ynghylch eu cyflenwadau dŵr yfed.

Ein dull gweithredu: Sicrhau bod deddfwriaeth yn gyfredol ac yn berthnasol; darparu adnoddau ar gyfer casglu gwybodaeth ac adrodd arni; a gweithredu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ei gyfrifoldebau.

Byddwn yn parhau i roi Deddf y Diwydiant Dŵr ar waith er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd ar ran defnyddwyr.

Darparu cyngor a gwybodaeth dechnegol i Defra a Llywodraeth Cymru er mwyn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth.

Sicrhau bod yr adnoddau ar gael i lunio a chynnal cofnod cenedlaethol o gydymffurfiaeth â rheoliadau cyflenwi dŵr cyhoeddus, ac i adrodd ar y statws cyfredol i weinidogion.

Datblygu a chynnal mesurau yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n arwain at newid cadarnhaol a gwelliant yn y diwydiant.



8. CYFLENWADAU DŴR PREIFAT

Amcan: Hyrwyddo proses effeithiol o reoleiddio cyflenwadau dŵr preifat gan awdurdodau lleol, fel bod defnyddwyr yn mwynhau'r un lefel o ddiogelwch ag a geir ar gyfer cyflenwadau cyhoeddus.

Ein dull gweithredu: Sicrhau bod deddfwriaeth yn gyfredol ac yn berthnasol.

Helpu i ddarparu adnoddau i gasglu gwybodaeth ac adrodd arni.

Sicrhau ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr, gan gynnwys gwrando ar sylwadau ar yr hysbysiadau a roddwyd.

Rhoi cyngor a gwybodaeth dechnegol i hysbysu awdurdodau lleol a'u helpu i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth.

Sicrhau bod yr adnoddau ar gael i lunio a chynnal cofnod cenedlaethol o leoliad cyflenwadau dŵr preifat ac ansawdd y dŵr; ac i adrodd ar y statws cyfredol i weinidogion.



9. YSTYRIAETHAU A HERIAU HIRDYMOR

Amcan: Ymgysylltu â llywodraeth a rhanddeiliaid ar bolisiâu a strategaethau er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu cyflenwadau dŵr yfed ac adnoddau dŵr yn y dyfodol.

Ein dull gweithredu: Ystyried effaith newid yn yr hinsawdd (a allai arwain at sychder a llifogydd, ac a all effeithio ar ansawdd a digonolrwydd dŵr yfed) a hyrwyddo camau addasu a lliniaru.

Byddwn yn cydnabod newidiadau mewn demograffeg, anghenion a disgwyliadau cenedlaethau'r dyfodol, ac yn cefnogi cynigion ar gyfer unrhyw seilwaith newydd sydd ei angen i gynnal cyflenwad digonol o ddŵr dihalog.

Rydym yn cydnabod bod diben cymdeithasol i'r broses o ddarparu dŵr, ac y dylai gwerth dŵr gael ei adlewyrchu yn y gymdeithas ehangach.





10. SYSTEMAU RHWYDWAITH A GWYBODAETH

Cyflwyniad

Mae'r Gyfarwydddeb ar Ddiogelwch Rhwydweithiau a Gwybodaeth (NIS) yn darparu mesurau cyfreithiol i ddiogelu gwasanaethau a seilwaith hanfodol, drwy sicrhau bod systemau rhwydwaith a gwybodaeth yn fwy diogel. Mae'r Gyfarwydddeb yn gymwys i'r sectorau hynny sy'n hanfodol i'r economi a chymdeithas, ac sy'n darparu gwasanaethau fel trydan, dŵr, gofal iechyd a thrafnidiaeth.


Cafodd Cyfarwydddeb NIS ei mabwysiadu gan Senedd Ewrop ar 6 Gorffennaf 2016, a bu'n rhaid i Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd drosi'r Gyfarwydddeb yn ddeddfwriaeth ddomestig erbyn 9 Mai 2018. Rhoddodd y DU ofynion Cyfarwydddeb NIS ar waith drwy Reoliadau NIS 2018, a ddaeth i rym ar 10 Mai 2018.

Yn Atodlen 1 i'r rheoliadau, nodwyd bod cyflenwadau dŵr yfed a'r broses o'u dosbarthu yn wasanaeth hanfodol ac, yn Atodlen 2, nodwyd mai gweithredwr gwasanaethau hanfodol yn y sector yw'r sawl sy'n cyflenwi dŵr yfed i 200,000 o bobl neu fwy.

Yr Arolygiaeth yw'r awdurdod dirprwyedig sy'n gyfrifol am sicrhau bod cwmnïau dŵr wedi cymryd y camau priodol i gynnal rhwydwaith diogel wrth gyflenwi dŵr yfed o ansawdd, ac i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

Mae rheoliadau NIS yn darparu mesurau cyfreithiol i ddiogelu gwasanaethau a seilwaith hanfodol drwy sicrhau bod systemau rhwydwaith a gwybodaeth yn fwy diogel. Mae cyfrifoldebau gweithredol swyddogaeth yr awdurdod cymwys, o dan y rheoliadau ar gyfer y sector dŵr, wedi'u rhoi i'r Arolygiaeth.

Bydd yr Arolygiaeth: yn paratoi ac yn cyhoeddi dogfennau canllaw er mwyn cynorthwyo gweithredwyr gwasanaethau hanfodol; yn derbyn hysbysiadau am ddigwyddiadau ac yn eu hasesu; yn cynnal asesiadau o ddigwyddiadau ac archwiliadau; ac yn cymryd camau gorfodi (gan gynnwys rhoi hysbysiadau a chosbau), lle y bo angen.




10. SYSTEMAU RHWYDWAITH A GWYBODAETH

Amcan: Sicrhau bod y diwydiant yn gallu gwrthsefyll ymosodiadau seiber, drwy nodi risgiau a hyrwyddo camau lliniaru; sicrhau bod bygythiadau yn cael eu hatal a bod gwersi yn cael eu dysgu.

Ein dull gweithredu: Bydd gennym ddigon o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.

Byddwn yn cynllunio i ysgogi buddsoddiad gan gwmnïau, ac yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill yn y fframwaith rheoleiddio. Caiff hyn ei gyflawni drwy godi ffioedd sy'n deg, yn gymesur ac yn gyfiawn o ran yr amcan.





Cyhoeddwyd gan

Drinking Water Inspectorate
Area 5B
Nobel House
17 Smith Square
London
SW1P 3JR

Ffôn: 0300 068 6400

Gwefan: <http://www.dwi.gov.uk>

© Hawlfraint y Goron 2020

ISBN: 978-1-911087-31-1

Y Goron sy'n berchen ar yr hawlfraint yn y trefniant teipograffyddol a'r dyluniad.
Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logo) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled â'i fod yn cael ei atgynhyrchu yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl a ffynhonnell y cyhoeddiad.

